

Cydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg

1. Cefndir

Cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg Hysbysiad Cydymffurfiaeth i'r Sefydliad Dysgu a Gwaith (gynt NIACE Cymru) ar 25 Gorffennaf 2016.

Roedd yr Hysbysiad Cydymffurfiaeth yn amlinellu dyletswydd Dysgu a Gwaith i gyrraedd Safonau'r Gymraeg statudol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Roedd y Mesur hwn yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg, gyda'r nod i'r Gymraeg beidio cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae cyflwyno Safonau'r Gymraeg, sydd yn rhestr o'r hyn y mae'n rhaid i sefydliadau ei wneud a'i ddarparu yn y Gymraeg, yn sicrhau y gall y rhai yng Nghymru sy'n dymuno byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg wneud hynny. Mae'r Safonau hyn yn creu rhyddid ieithyddol i unigolion yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg.

Fel rhan o'r broses cydymffurfiaeth, mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i Dysgu a Gwaith gyflwyno Adroddiad Blynyddol bob blwyddyn ariannol sy'n adlewyrchu ar gydymffurfio gyda gofynion Darpariaeth Gwasanaeth, Gwneud Polisi, Safonau Gweithredol a Chadw Cofnodion.

2. Cyfrifoldeb am y Gymraeg

Mae Rheolwr Swyddfa Cymru a Swyddog Prosiectau Cymru yn arwain ar y gwaith hwn ar draws y sefydliad gyda chefnogaeth Cyfarwyddwr Cymru i sicrhau fod gweithdrefnau yn eu lle i helpu staff i ddeall eu rôl wrth gynorthwyo Dysgu a Gwaith i gyrraedd y Safonau.

Mae Cyfarwyddwr Cymru yn adrodd i Grŵp Strategaeth Dysgu a Gwaith Cymru ar y Safonau yn ystod y flwyddyn ac yn eu cyflwyno gyda'r adroddiad blynyddol cyn ei gyhoeddi. Mae'r grŵp yn cwrdd deirgwaith y flwyddyn – ym misoedd Chwefror, Mehefin a Hydref.

Mae canllawiau ar gael i'r holl staff i gynorthwyo gyda chydymffurfiaeth. Caiff staff newydd eu hysbysu am gydymffurfiaeth Dysgu a Gwaith gyda Safonau'r Gymraeg fel rhan o'u sesiynau cynefino a chaiff staff presennol eu hatgoffa'n flynyddol gan y Rheolwr Swyddfa pan gyhoeddir yr adroddiad blynyddol.

Mae Dysgu a Gwaith yn cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg ym mis Medi pob blwyddyn ariannol ar ei [wefan](#).

Mae gwybodaeth am ein cydymffurfiaeth gyda'r Safonau ar gael ar [wefan](#) Dysgu a Gwaith Cymru.